Cytundeb PROOF: Amodau a Thelerau

Y cofrestrydd sy'n gweithredu cynllun PROOF ac mae'r cwmni (neu gorff arall) am ymuno â chynllun PROOF o dan yr amodau sydd wedi'u pennu yn y cytundeb hwn.

Mae'r cytundeb hwn yn gytundeb o dan adran 1070.

Dim ond Cwmnïau a PACau caiff cymryd rhan yn y cynllun PROOF.

1. Diffiniadau a dehongliad

1.1 Mae'r cofrestrydd yn darparu'r cynllun PROOF ar gyfer cwmnïau a PACau. Mae unrhyw gyfeiriad at "gwmni (neu gorff arall)" yn y cytundeb hwn yn cyfeirio at gwmni neu PAC fel y bo'n briodol.

1.2 Yn y cytundeb hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:
- 1.2.1 mae'r termau diffiniedig a gaiff eu defnyddio yn y cytundeb, ynghyd â'u hystyron, wedi'u cynnwys yn Atodlen 1;
- 1.2.2 mae'r cyfeiriadau at adrannau'n sôn am adrannau o Ddeddf Cwmnïau 2006.
- 1.2.3 mae unrhyw gyfeiriad at gymal neu atodlen yn sôn am gymal neu atodlen i'r cytundeb hwn;
- 1.2.4 bydd cyfeiriadau at ysgrifennu yn cynnwys trawsyriadau e-bost;
- 1.2.5 bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a'r ffordd arall, a bydd cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys y ddau ryw; ac
- 1.2.6 er mwyn cyfleustra yn unig y mae'r penawdau ac ni fyddant yn effeithio ar y dehongliad.

1.3 Yn y cytundeb hwn, mae unrhyw gyfeiriad at Ddeddf yn cynnwys deddfwriaeth atodol wedi'i gwneud o dan y Ddeddf honno.

2. Hepgor termau eraill

2.1 Mae'r cytundeb hwn yn pennu'r amodau y trefnir i gynllun PROOF fod ar gael i'r cwmni (neu gorff arall) o danynt. Mae'r amodau hyn yn llywodraethu ffurf a dull cyflwyno dogfennau PROOF i'r cofrestrydd, gan wrthod pob amod arall.

3. Dechrau, a chyfnod pontio

3.1 Rhaid i'r cwmni (neu gorff arall) gyflwyno cais i'r cofrestrydd i ymuno â'r cynllun PROOF. Daw'r cytundeb hwn yn gyfrwymol wrth i'r cofrestrydd dderbyn cais y cwmni am ymuno â chynllun PROOF. Mae manylion sut i lunio a chyflwyno cais am ymuno â chynllun PROOF i'w gweld ar y wefan. Bydd y cofrestrydd yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at y cwmni (neu gorff arall) os caiff cais y cwmni ei dderbyn.

4. Cytundeb

4.1 Mae'r cwmni (neu gorff arall) yn cytuno bod rhaid i bob dogfen PROOF a gaiff ei chyflwyno i'r cofrestrydd fod ar ffurf electronig yn unol â gofynion y cofrestrydd ar gyfer e-gyflwyniad y ddogfen honno.

4.2 Os caiff dogfen PROOF ei chyflwyno i'r cofrestrydd ar bapur mewn modd arall ar wahân i'r hyn a ganiateir gan gymal 5, mae'r cwmni (neu gorff arall) yn cyfarwyddo'r cofrestrydd i ddychwelyd y ddogfen, heb ei chofrestru, i'r cwmni (neu gorff arall) fel un na chafodd ei chyflwyno yn unol â'r cytundeb hwn. Mae'r cymal 4.2 hwn yn amodol ar gymal 4.3.

4.3 Os cyflwynir newid i gyfeiriad swyddfa gofrestredig i'r cofrestrydd ar bapur yn hytrach na fel y mae cymal 5 yn ei ganiatáu, mae'r cwmni (neu gorff arall) yn cyfarwyddo'r cofrestrydd i ddychwelyd y ddogfen, heb ei chofrestru, i'r cyfeiriad newydd a ddarparwyd fel lleoliad arfaethedig y swyddfa gofrestredig.

4.4 Mae'r cymal 4 hwn yn ddarostyngedig i weddill amodau'r cytundeb hwn.

5. Amgylchiadau lle gellir defnyddio papur neu lle mae'n rhaid gwneud

5.1 Cydsyniad papur

5.1.1 Gall dogfen PROOF gael ei chyflwyno i'r cofrestrydd ar bapur unrhyw bryd yn ystod cyfnod y cytundeb hwn ar yr amod bod cydsyniad papur yn cael ei yrru gyda hi. Rhaid i ddogfen PROOF a anfonir ar bapur gael ei chyflwyno yn unol â gofynion y cofrestrydd ar gyfer cyflwyniad papur y ddogfen honno.

5.1.2 Lle caiff dogfen PROOF ei chyflwyno yn unol â chymal 5.1.1, mae'r cwmni (neu gorff arall) yn cyfarwyddo ac yn awdurdodi'r cofrestrydd i dderbyn y cyflwyniad a phrosesu'r ddogfen PROOF honno yn unol â threfn arferol y cofrestrydd a heb unrhyw rwymedigaeth i gysylltu â'r cwmni (neu gorff arall) nac fel arall i wneud ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen.

5.2 Cyfieithiadau gwirfoddol

Rhaid i gyfieithiad gwirfoddol o ddogfen PROOF gael ei chyflwyno ar bapur heb gydsyniad papur ac yn unol â'r rheiny o ofynion y cofrestrydd ar gyfer cyflwyno ar bapur sy'n gymwys i gyfieithiadau gwirfoddol.

5.3 Amgylchiadau wedi'u hepgor

Os yw un neu ragor o'r amgylchiadau sydd wedi'u hepgor yn gymwys, mae'n rhaid i'r cwmni (neu gorff arall) gyflwyno'i ffurflen flynyddol ar bapur yn unol â gofynion y cofrestrydd ar gyfer cyflwyno'r ffurflen flynyddol ar bapur. Rhaid anfon cydsyniad papur yr un pryd â ffurflen flynyddol a gaiff ei chyflwyno ar bapur.

5.4 Dogfennau PROOF amnewid

Rhaid i ddogfen amnewid yn lle dogfen PROOF gael ei chyflwyno i'r cofrestrydd ar bapur yn unol â gofynion y cofrestrydd ar gyfer cyflwyno dogfennau o'r fath ar bapur a rhaid anfon cydsyniad papur yr un pryd â'r ddogfen amnewid. Bydd y cymal 5.4 hwn yn gymwys ni waeth am ddyddiad cyflwyno'r ddogfen PROOF a gafodd ei chyflwyno'n flaenorol ac ni waeth am ffurf y cyflwyno.

6. Digwyddiadau terfynu

6.1 Daw'r cytundeb hwn i ben ar unwaith os bydd digwyddiad terfynu'n codi mewn perthynas â'r cwmni (neu gorff arall). Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth yn hyn o beth, caiff y cytundeb ei derfynu'n awtomatig o dan y cymal hwn ac nid oes angen i'r naill barti hysbysu'r llall bod y cytundeb wedi dod i ben. Ni fydd terfynu'r cytundeb o dan y cymal hwn yn cyfaddawdu unrhyw hawl arall i derfynu a ganiateir o dan y cytundeb hwn.

6.2 Ni chaiff y cwmni (neu gorff arall) y mae digwyddiad terfynu wedi codi mewn perthynas ag ef gymryd rhan yn y cynllun PROOF. Gall cwmni (neu gorff arall) wneud cais i ymuno â'r cynllun PROOF neu ail-ymuno â'r cynllun pan nad yw'n destun digwyddiad terfynu mwyach.

7. Dim gwarant o argaeledd gwasanaethau ffeilio electronig

7.1 Nid yw'r cofrestrydd yn rhoi i'r cwmni (neu gorff arall) unrhyw warant nac ymgymeriad o dan y cytundeb hwn o ran argaeledd gwasanaethau ffeilio electronig. Mae'r cwmni (neu gorff arall) yn deall ac yn derbyn nad yw cymryd rhan yng nghynllun PROOF yn gwarantu y bydd gwasanaethau ffeilio electronig ar gael pan fydd y cwmni (neu gorff arall) yn dymuno cyflwyno dogfen PROOF.

7.2 Mae'r cwmni (neu gorff arall) yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol mewn ffordd brydlon, p'un a fydd gwasanaethau ffeilio electronig ar gael neu beidio. Mater i'w cwmni (neu gorff arall) yw penderfynu sut y bydd yn gwireddu hyn, p'un ai drwy ffeilio dogfen PROOF gyda chydsyniad papur neu drwy derfynu'r cytundeb hwn neu fel arall.

8. Terfynu cynllun PROOF

8.1 Yn unol â chymal 6.1, daw'r cytundeb hwn i ben ar unwaith os bydd digwyddiad terfynu'n codi mewn perthynas â'r cwmni (neu gorff arall).

8.2 Caiff y cofrestrydd, yn ôl ei ddisgresiwn, derfynu'r cytundeb hwn â'r cwmni (neu gorff arall) yn syth drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig at y cwmni (neu gorff arall). Caiff y cofrestrydd, yn ôl ei ddisgresiwn, roi gwybod hefyd i un neu ragor o'r cyfarwyddwyr (neu aelodau yn ôl fel y bo'n digwydd) y cwmni (neu gorff arall) fod y cytundeb wedi'i derfynu. Bydd y cofrestrydd yn rhoi ei resymau dros derfynu'r cytundeb o dan y Gymal 8.2 hwn i'r cwmni (neu gorff arall) os gwneir cais.

8.3 Caiff y cofrestrydd dynnu darpariaeth cynllun PROOF yn ôl o bob cyfranogwyr unrhyw bryd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig ar y wefan. Mae gan y cofrestrydd hawl i dynnu cynllun PROOF yn ôl yn syth, er y bydd yn ymdrechu i roi o leiaf dri mis o rybudd cyn tynnu'r cynllun yn ôl lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

8.4 Caiff y cwmni (neu gorff arall) derfynu'r cytundeb hwn drwy anfon hysbysiad at y cofrestrydd yn unol â'r drefn "Dewis Gadael" a gyhoeddir ar y wefan o bryd i'w gilydd. Os na chyhoeddir trefn "Dewis Gadael" ar y wefan neu os nad yw'r wefan ar gael am fwy na 96 o oriau olynol (heb gynnwys y penwythnos na gwyliau banc), caiff y cwmni (neu gorff arall) derfynu'r cytundeb hwn drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig at y cofrestrydd yn Nhŷ'r Cwmnïau ac fe ddaw'r cytundeb i ben ar y pumed diwrnod gwaith ar ôl diwrnod anfon yr hysbysiad. Lle bo'r cwmni (neu gorff arall) yn terfynu'r cytundeb o dan y drefn "Dewis Gadael", daw'r cytundeb i ben pan fydd y cofrestrydd yn derbyn hysbysiad i'w derfynu. Bydd y cofrestrydd yn gyrru cadarnhad ysgrifenedig at y cwmni (neu gorff arall) fod y cytundeb wedi'i derfynu.

8.5 Wrth i'r cytundeb gael ei derfynu, ni fydd gan y cwmni (neu gorff arall) hawl mwyach i gymryd rhan yng nghynllun PROOF a bydd darpariaethau'r cytundeb hwn yn peidio â bod yn gymwys.

9. Cyfathrebu o dan y cytundeb hwn

9.1 Ac eithrio lle mae'r cytundeb yn darparu bod y cofrestrydd yn hysbysu neu'n cyfathrebu fel arall ar y wefan (mewn amgylchiadau felly, fe ystyrir bod yr hysbysiad neu'r cyfathrebiad wedi'i gyflwyno wrth gael ei gyhoeddi ar y wefan), ystyrir bod unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad o dan y cytundeb hwn wedi ei roi:
- 9.1.1 os caiff ei anfon drwy e-bost, ar ddiwrnod ei anfon;
- 9.1.2 os caiff ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post dosbarth cyntaf, ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad y postio; a
- 9.1.3 os caiff ei gyflwyno â llaw, wrth ei dderbyn.

9.2 Caiff y cofrestrydd, yn ôl ei ddisgresiwn, anfon unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad arall:
- 9.2.1 drwy'r post at y cwmni (neu gorff arall) yn ei swyddfa gofrestredig (neu ei brif lle busnes os nad oes gofyn bod swyddfa gofrestredig gan y cwmni);
- 9.2.2 drwy e-bost at y cwmni (neu gorff arall) yn ei gyfeiriad e-bost a ddarparwyd gan y cwmni (neu gorff arall) at ddibenion cyfathrebu;
- 9.2.3 i unrhyw gyfeiriad arall y rhoddodd y cwmni (neu gorff arall) wybod iddo amdano at ddibenion cyfathrebu o dan y cytundeb hwn o bryd i'w gilydd.

9.3 Caiff y cyfeiriad(au), a'r cyfeiriadau e-bost y dylai'r cwmni (neu gorff arall) anfon hysbysiadau a chyfathrebiadau eraill iddynt o dan y cytundeb hwn eu nodi ar y wefan o bryd i'w gilydd. Os bydd gan y cwmni (neu gorff arall) unrhyw amheuon, dylai ffonio **0303 1234 500** neu e-bostio **enquiries@companieshouse.gov.uk** am gymorth.

10. Gwybodaeth bwysig

10.1 Does dim yn y cytundeb hwn sy'n drech na dyletswydd y cwmni (neu gorff arall), neu sy'n effeithio ar ei ddyletswydd, i gyflwyno dogfennau i'r cofrestrydd .

10.2 Gall amodau'r cytundeb hwn gael eu newid yn syth gan y cofrestrydd drwy roi rhybudd ar y wefan. Heb afles i'r hyn a ddywedwyd uchod, bydd y cofrestrydd yn rhoi rhybudd tri mis am bob rhyw newid arwyddocaol i'r amodau hyn lle bynnag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Bydd y cofrestrydd yn gweithredu'n rhesymol wrth wneud newidiadau i'r cytundeb hwn.

10.3 Mae'r cytundeb hwn yn bersonol i'r cwmni (neu gorff arall). Ni ellir ei drosglwyddo i neb arall, ac ni all gael ei ddefnyddio er lles y rheiny.

10.4 Mae'r cwmni (neu gorff arall) yn gwarantu ac yn mynegi (i) fod ganddo'r pŵer i ymrwymo i'r cytundeb hwn; (ii) bod ei gyfarwyddwyr (neu aelodau fel y bo'n briodol) yn gwybod ei fod wedi gwneud cais am ymuno â chynllun PROOF; a (iii) bod ei gais am ymuno â chynllun PROOF yn cael ei wneud ar ei ran gan gynrychiolydd wedi'i awdurdodi'n briodol.

Atodlen 1

Diffiniadau wedi'u defnyddio yn y cytundeb hwn

Mae "ffurflen flynyddol" yn golygu pob dogfen PROOF a ddynodwyd â'r llythrennau "AR" yng nholofn 3 o'r tabl yn atodlen 2;

Mae "cod dilysu cwmni" yn golygu cod cyfrinachol y cytunwyd arno rhwng y cwmni (neu gorff arall) a'r cofrestrydd;

Mae "newid cyfeiriad swyddfa gofrestredig" yn golygu pob dogfen PROOF a ddynodwyd â'r llythrennau "ROA" yng ngholofn 3 o'r tabl yn atodlen 2;

Mae i "cwmni" yr ystyr a roddwyd iddo yn adran 1;

"cwmni (neu gorff arall)"—gweler cymal 1.1. o'r cytundeb hwn;

Mae "amgylchiadau wedi'u hepgor" yn golygu unrhyw rai o'r canlynol:

i. mewn perthynas â dogfennau a anfonir trwy gyfrwng software filing lle—
   - a. bo'n ofynnol trwy ddeddfiad i'r cwmni (neu gorff arall) gyflwyno rhestr o fentrau atodol neu gysylltiedig yn y ddogfen honno;
   - b. bo'r ddogfen yn cynnwys ffurflen flynyddol
     - aa. mae gorfodaeth ar y cwmni (neu'r corff arall) i gyflwyno enwau 1,001 neu ragor o bobl yn rhan o'r wybodaeth angenrheidiol am aelodau, neu
     - bb. mae'r cwmni (neu gorff arall) am ddiwygio'n sylweddol unrhyw wybodaeth barod a ddarparwyd yn y ffurflen flynyddol (fel rheol gyffredinol, ystyr "diwygiad sylweddol" yw diwygio 254 o nodau gwahanol neu eiriau cyfan; os oes unrhyw amheuaeth, dylai'r cwmni (neu gorff arall) gysylltu â'r cofrestrydd i ofyn am eglurhad o ran a yw'r diwygiad yn debygol o fod yn "ddiwygiad sylweddol" at y diben hwn);
   - c. mae'n ofynnol i'r cwmni gyflwyno gwybodaeth am achosion lle trosglwyddwyd dros 30 o gyfrannau o fewn unrhyw ddosbarth penodedig o gyfrannau;
   - d. mae'r cyfalaf cyfrannau'r cwmni yn cynnwys dros 6 dosbarth o gyfrannau ar gyfer unrhyw fath penodol o arian treigl;
   - e. mae gan y cwmni ddosbarth o gyfrannau lle nad oes gan yr holl gyfrannau yr un manylion cyfalaf wedi eu talu/heb eu talu (e.e. 50 o gyfrannau £1 cyffredin gyda chyfalaf taledig o 1 geiniog a 50 o gyfrannau £1 cyffredin â chyfalaf taledig o 99 ceiniog);
   - f. mae gan y cwmni ddosbarth o gyfrannau a fynegwyd mewn un arian treigl lle rhaid cyfleu manylion cyfalaf wedi/heb ei dalu o leiaf un o'r cyfrannau ar ffurf math gwahanol o arian treigl;
   - g. mae gan y cwmni gyfalaf cyfrannau nominal a fynegwyd i dros chwe lle degol;
   - h. mae o leiaf un aelod o'r cwmni (neu gorff arall) yn cynnwys mwy na deg person yn gweithredu ar y cyd; neu
   - i. mynegir bod cyfalaf cyfrannau'r cwmni gwerth £100,000,000 neu ragor ; a

ii. mewn perthynas â dogfennau a gyflwynir trwy webfiling lle—
   - a. mae gan y cwmni gyfalaf cyfrannau nominal wedi ei fynegi i dros chwe lle degol;
   - b. mae o leiaf un aelod o'r cwmni (neu gorff arall) yn cynnwys mwy na deg person yn gweithredu ar y cyd; a
   - c. mynegir bod cyfalaf cyfrannau'r cwmni gwerth £100,000,000 neu ragor;

Ystyr "gwasanaethau ffeilio electronig" yw y cyfleusterau hynny software filing a webfiling wedi eu darparu gan y cofrestrydd at ddibenion cyflwyno iddo ddogfennau ar ffurf electronig yn unol â gofynion y cofrestrydd ar gyfer e-gyflwyno;

Ystyr "ar ffurf electronig" yw ffurf sy'n bodloni gofynion y cofrestrydd ar gyfer e-gyflwyno;

Ystyr "PAC" yw corff a gorfforwyd fel partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig o dan y Ddeddf PACau;

Ystyr "Deddf PACau" yw Deddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000;

Ystyr "cydsyniad papur" yw'r profforma sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 3, a'r holl feysydd data wedi'u cwblhau'n briodol gyda golwg ar y cwmni;

Ystyr "dogfen PROOF" yw unrhyw un o'r dogfennau hynny sydd wedi'u pennu yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 ac y mae'n ofynnol eu cyflwyno, neu yr awdurdodir eu cyflwyno, i'r cofrestrydd ar gyfer y cwmni (neu gorff arall) o dan y darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi'u pennu yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw;

Ystyr "cynllun PROOF" yw'r cynllun (PROtected Online Filing) a gaiff ei weithredu gan y cofrestrydd yn unol ag adran 1070 sy'n darparu ar gyfer cyflwyniad dogfennau PROOF gan gwmnïau (neu gyrff arall) ar ffurf electronig i'r cofrestrydd yn ôl disgrifiad manylach yr amodau hyn ac yn ddarostyngedig iddynt;

Ystyr "cofrestr" yw'r cofnodion y mae'r cofrestrydd yn eu cadw o'r holl wybodaeth a gynhwysir yn y dogfennau a gyflwynir iddo o dan unrhyw ddedfwrthiaeth a'r holl dystysgrifau a gyflwynir ganddo;

Ystyr "cyfeiriad e-bost cofrestredig" yw'r cyfeiriad e-bost a roddodd y cwmni o dan ofynion y cofrestrydd ar gyfer e-gyflwyno at ddibenion derbyn cyfathrebiadau oddi wrth y cofrestrydd ynglŷn â dogfennau a gaiff eu cyflwyno ar ffurf electronig;

Diffinnir "cofrestrydd" yn yr ystyr a ddisgrifir yn adran 1060(3) mewn perthynas â chwmni a'r ystyr a roddir yn adran 18 o'r Ddeddf PACau mewn perthynas â PAC;

Ystyr "gofynion y cofrestrydd ar gyfer e-gyflwyno" yw gofynion y cofrestrydd sy'n gymwys i ddogfennau a gaiff eu cyflwyno iddo ar ffurf electronig, fel y pennir yng Nghyfrol 1 o reolau'r cofrestrydd;

Ystyr "gofynion y cofrestrydd ar gyfer cyflwyno ar bapur" yw gofynion y cofrestrydd sy'n gymwys i ddogfennau a gaiff eu cyflwyno iddo ar bapur, fel y pennir yng Nghyfrol 2 o reolau'r cofrestrydd;

Ystyr "rheolau'r cofrestrydd" yw rheolau'r cofrestrydd 2009 fel y gellir eu haddasu, ei diwygio neu eu disodli o bryd i'w gilydd;

Mae" amnewidiad" yn golygu dogfen amnewid o fewn ystyr adran 1076;

Ystyr "software filing" yw'r cyfleuster lle gellir cyflwyno dogfen i'r cofrestrydd gan ddefnyddio XML i'w hanfon drwy'r porth XML;

Mae "digwyddiad terfynu" yn golygu unrhyw un o'r canlynol

i. cofnodwyd un neu ragor o'r dogfennau canlynol ar y gofrestr mewn perthynas â'r cwmni (neu gorff arall):
   (a) unrhyw un o'r ffurflenni canlynol a gafodd eu penodi gan Reolau Ansolfedd 1986, Rheolau Ansolfedd (Yr Alban) 1986, Rheolau Ansolfedd (Gogledd Iwerddon) 1991 neu Gyfrol 2 o Reolau'r Cofrestrydd fel y bo'r achos ac fel y gall gael eu diwygio o bryd i'w gilydd—
      - Ffurflen 1(SC) (Rhoi Gwybod am Benodi Derbynnydd gan Ddeiliad Arwystl Nofiol)
      - Ffurflen 2(SC) (Penodi Derbynnydd gan y Llys)
      - Ffurflen 1.1(SC) (Hysbysiad i'r Cofrestrydd Cwmnïau i roi grym i Drefniadau Gwirfoddol)
      - Ffurflen 1.1(E&W) (Hysbysiad i'r Cofrestrydd Cwmnïau i roi grym i Drefniadau Gwirfoddol)
      - Ffurflen 1.01(NI) (Hysbysiad i'r Cofrestrydd Cwmnïau i roi grym i Drefniadau Gwirfoddol)
      - Ffurflen 2.1(SC) (Hysbysiad o Ddeiseb dros Orchymyn Gweinyddu)
      - Ffurflen 2.2(SC) (Hysbysiad am Orchymyn Gweinyddu)
      - Ffurflen 2.6(E&W) (Hysbysiad am Orchymyn Gweinyddu)
      - Ffurflen 2.7(E&W) (Gorchymyn Gweinyddu)
      - Ffurflen 2.07(NI) (Hysbysiad am Orchymyn Gweinyddu)
      - Ffurflen 2.08(NI) (Gorchymyn Gweinyddu)
      - Ffurflen 2.11B(SC) (Hysbysiad am Benodi Gweinyddwr)
      - Ffurflen 2.12B(E&W) (Hysbysiad am Benodi Gweinyddwr)
      - Ffurflen 2.12B(NI) (Hysbysiad am Benodi Gweinyddwr)
      - Ffurflen 4.20(E&W) (Datganiad o Faterion Cwmni)
      - Ffurflen 4.70(E&W) (Datganiad Solfedd mewn Achos o Ddirwyn i Ben yn Wirfoddol gan yr Aelodau)
      - Ffurflen 4.21(NI) (Datganiad o Faterion Cwmni)
      - Ffurflen 4.71(NI) (Datganiad Solfedd mewn Achos o Ddirwyn i Ben yn Wirfoddol gan yr Aelodau)
      - Ffurflen 4.2(SC) (Hysbysiad am Orchymyn Dirwyn i Ben)
      - Ffurflen 4.9(SC) (Hysbysiad am Benodi Datodydd)
      - Ffurflen 4.15A(E&W) (Hysbysiad o Benodi Diddymydd Dros Dro mewn Achos Dirwyn i Ben gan y Llys)
      - Ffurflen 4.16A(NI) (Hysbysiad o Benodi Diddymydd Dros Dro mewn Achos Dirwyn i Ben gan y Llys)
   (b) Gorchymyn Dirwyn i Ben gan y Llys (E&W)
   Gorchymyn Dirwyn i Ben gan y Llys (NI)
   (c) Ffurflen F14 (Hysbysiad am Ddirwyn i Ben yn Orfodol gan y Llys) (E&W)
   (d) Penderfyniad i ddirwyn y cwmni i ben yn wirfoddol neu benderfyniad i ddirwyn PAC i ben yn wirfoddol
   (e) Ffurflen 600 (Hysbysiad am Benodi Datodydd mewn Achos o Ddirwyn i Ben yn Wirfoddol (Aelodau neu Gredydwyr))
   (f) Ffurflen VL1(NI) (Hysbysiad am Benodi Datodydd mewn Achos o Ddirwyn i Ben yn Wirfoddol (Aelodau neu Gredydwyr))
   (g) Ffurflen LQ01 neu LL LQ01 (Hysbysiad am Benodi Derbynnydd neu Reolwr)
   (h) Ffurflen DS01 neu LL DS01(Cais am Ddileu o'r Gofrestr); neu

ii. mae'r gofrestr mewn perthynas â'r cwmni yn dangos bod y cwmni wedi "cau" neu wedi ei "drosi"; neu

iii. mae'r cwmni (neu gorff arall) wedi cael ei ddileu o'r gofrestr neu ei ddiddymu;

Ystyr "cyfieithiad gwirfoddol" yw cyfieithiad ardystiedig o unrhyw ddogfen a gaiff neu a gafodd ei chyflwyno i'r cofrestrydd lle cyflwynir y cyfieithiad o dan adran 1106;

Ystyr "webfiling" yw'r cyfleuster ar y we a ddarperir gan y cofrestrydd lle gellir cyflwyno dogfen i'r cofrestrydd ar-lein;

Ystyr "gwefan" yw y wefan a gaiff ei chynnal gan y cofrestrydd yn URL **www.tyrcwmniau.gov.uk** o bryd i'w gilydd.

Atodlen 2

Tabl dogfennau PROOF

Enw a rhif y ddogfen	Deddfwriaeth	Ffurflen Flynyddol (AR)/Newid cyfeiriad swyddfa gofrestredig (ROA)
AP01c (Penodiad cyfarwyddwr)	Adran 167 Deddf Cwmnïau 2006	
AP02c (Penodiad cyfarwyddwr corfforaethol)	Adran 167 Deddf Cwmnïau 2006	
AP03c (Penodiad ysgrifennydd)	Adran 276 Deddf Cwmnïau 2006	
AP04c (Penodiad ysgrifennydd corfforaethol)	Adran 276 Deddf Cwmnïau 2006	
TM01c (Terfynu penodiad cyfarwyddwr)	Adran 167 Deddf Cwmnïau 2006	
TM02c (Terfynu penodiad ysgrifennydd)	Adran 276 Deddf Cwmnïau 2006	
CH01c (Newid manylion cyfarwyddwr)	Adran 167 Deddf Cwmnïau 2006	
CH02c (Newid manylion cyfarwyddwr corfforaethol)	Adran 167 Deddf Cwmnïau 2006	
CH03c (Newid manylion ysgrifennydd)	Adran 276 Deddf Cwmnïau 2006	
CH04c (Newid manylion ysgrifennydd corfforaethol)	Adran 276 Deddf Cwmnïau 2006	
AD01c (Newid cyfeiriad y swyddfa gofrestredig)	Adran 87 Deddf Cwmnïau 2006	ROA
AR01c (Ffurflen Flynyddol)	Adran 854 Deddf Cwmnïau 2006	AR
288aCym (Penodi cyfarwyddwr neu ysgrifennydd)	Adran 288 Deddf Cwmnïau 1985	
288bCym (Terfynu penodiad cyfarwyddwr neu ysgrifennydd)	Adran 288 Deddf Cwmnïau 1985	
288cCym (Newid manylion cyfarwyddwr neu ysgrifennydd)	Adran 288 Deddf Cwmnïau 1985	
287Cym (Newid lleoliad neu gyfeiriad y swyddfa gofrestredig)	Adran 287 Deddf Cwmnïau 1985	ROA
363Cym (Ffurflen Flynyddol)	Adran 363 Deddf Cwmnïau 1985	AR
LL AR01c (Ffurflen Flynyddol PAC)	Yn unol ag Adran 854 o Ddeddf Cwmnïau 2006 fel y'u cymhwysir gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd (Gweithredu Deddf Cwmnïau 2006) 2009	AR
LL AP01c (Penodi aelod o PAC)	Yn unol ag Adran 9 o Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000	
LL AP02c (Penodi aelod corfforaethol o PAC)	Yn unol ag Adran 9 o Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000	
LL CH01c (Newid manylion aelodau PAC)	Yn unol ag Adran 9 o Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000	
LL CH02c (Newid manylion aelodau corfforaethol PAC)	Yn unol ag Adran 9 o Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000	
LL TM01c (Terfynu penodiad aelod o PAC)	Yn unol ag Adran 9 o Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000	
LL AD01c (Newid cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig PAC)	Yn unol ag Adran 87 o Ddeddf Cwmnïau 2006 fel y'u cymhwysir gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd (Gweithredu Deddf Cwmnïau 2006) 2009	ROA

Atodlen 3

Pro forma Cydsyniad Papur (Tudalen nesaf)

Yn unol ag Adran 1070 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

In accordance with Section 1070 of the Companies Act 2006.

PR03**c**

PROOF: Ffurflen gydsyniad ar gyfer ffeilio ar bapur
PROOF: Consent form for paper filing

Companies House — for the record — Tŷ'r Cwmnïau — er gwybodaeth —

Cynllun (PROOF) PROtected Online Filing y Cofrestrydd
The Registrar's PROtected Online Filing (PROOF) scheme

✓ **At beth gewch chi ddefnyddio'r ffurflen hon?**
Dim ond os ydych yn gwmni sydd wedi ymuno â chynllun PROOF y Cofrestrydd a'ch bod yn rhoi cydsyniad i ffeilio ffurflenni papur penodol y cewch ddefnyddio'r ffurflen hon.

✗ **At beth NA chewch chi?**
Ni chewch ddefnyddio'r ffurflen hon i adael y cynllun. I wneud hynny, byddwch cystal â chyflwyno cais Gadael y Cynllun i'r Cofrestrydd.

✓ **What this form is for**
You may only use this form if you are a company which has joined the Registrar's PROOF scheme and you are giving consent to file certain paper forms.

✗ **What this form is NOT for**
You cannot use this form to opt out of this scheme. To do this, please submit an Opt-Out application to the Registrar.

Ceir nodiadau cwblhau ar ddiwedd y ffurflen.
Am wybodaeth bellach, cyfeiriwch at ein canllaw ar www.tyrcwmniau.gov.uk

Notes for completion can be found at the end of the form.
For further information, please refer to our guidance at www.companieshouse.gov.uk

Cod Dilysu'r Cwmni / Company authentication code

Rhif y Cwmni		Company number
Enw'r cwmni yn llawn		Company name in full
Cod Dilysu'r Cwmni		Company authentication code

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig / Registered office address

Enw/rhif yr adeilad		Building name/number
Stryd		Street
Tref bost		Post town
Sir/Rhanbarth		County/Region
Cod post		Post code

Ffurflenni wedi'u hatodi wrth y cydsyniad sy'n gymwys ❶
Forms attached to which consent applies ❶

Mae'r cwmni uchod yn un sydd wedi ymuno â Chynllun PROOF (fel y mae wedi'i ddiffinio yn Rheolau cynllun y Cofrestrydd). Mae'r cwmni drwy hyn yn cydsynio i'r ffurflen bapur/ffurflenni papur isod gael eu cyflwyno i'r Cofrestrydd i'w rhoi ar y cofnod cyhoeddus.

The above company is an Opted-In Company (as defined in the Terms relating to the Registrar's PROOF scheme). The company hereby consents to the paper form(s) referred to below being submitted to the Registrar for placing on the public record.

Enw ffurflen Title of form	Nifer y ffurflenni sydd wedi'u hamgáu Number of forms enclosed

Specimen

PR03**c**

PROOF : Ffurflen gydsyniad ar gyfer ffeilio ar bapur
PROOF: Consent form for paper filing

Nodiadau

→ Llenwi'r ffurflen hon
Llenwch y ffurflen mewn teipysgrif neu mewn priflythrennau du tywyll. Mae pob maes yn orfodol oni nodir yn wahanol neu y dangosir gyda *

❶ Ffurflenni
Dim ond y ffurflenni canlynol y gellir eu ffeilio gyda'r ffurflen hon gan gwmnïau sydd wedi ymuno â PROOF:

Ffurflen Flynyddol, Newid Swyddfa Gofrestredig, Penodiadau, Terfynu penodiadau neu Ffurflenni newid manylion.

Notes

→ Filling in this form
Please complete in typescript or in bold black capitals. All fields are mandatory unless specified or indicated by *

❶ Forms
Only the following forms can be filed with this form by companies signed up to PROOF:

Annual Return, Change of registered office, Appointments, Termination of appointments or Change of details forms.

Specimen

PR03**c**

PROOF : Ffurflen gydsyniad ar gyfer ffeilio ar bapur
PROOF: Consent form for paper filing

✓ Rhestr wirio

Mae'n bosibl y byddwn yn dychwelyd ffurflenni anghywir neu anghyflawn.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofio'r canlynol:

- ☐ Eich bod wedi cynnwys enw'r cwmni a rhif y cwmni.
- ☐ Eich bod wedi cynnwys cod dilysu'r cwmni.
- ☐ Eich bod wedi cynnwys swyddfa gofrestredig y cwmni.
- ☐ Eich bod wedi cyfleu pa ffurflen(ni) y cydsyniwch iddynt gael eu cyflwyno i'r Cofrestrydd i'w rhoi ar y cofnod cyhoeddus.

✓ Checklist

We may return forms completed incorrectly or with information missing.

Please make sure you have remembered the following:

- ☐ You have included the company name and company number.
- ☐ You have included the company authentication code.
- ☐ You have included the company's registered office.
- ☐ You have indicated which form(s) you consent may be submitted to the Registrar to be placed on the public record.

! Gwybodaeth bwysig

Sylwch ni fydd yr holl wybodaeth ar y ffurflen hon yn ymddangos ar y cofnod cyhoeddus. Os bydd ymholiad, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn anfon y ffurflen hon i gyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig.

! Important information

Please note that all information on this form will not appear on the public record. In the event of a query, Companies House will send this form to the registered office address.

✉ Ble i anfon

Cewch ddychwelyd y ffurflen hon i unrhyw un o gyfeiriadau Tŷ'r Cwmnïau, ond rydym yn awgrymu y byddem yn eich cynghori i'w hanfon i'r cyfeiriad priodol isod:

Cwmnïau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Chymru:
Rheolwr PROOF, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, Cymru, CF14 3UZ.
DX 33050 Caerdydd.

✉ Where to send

You may return this form to any Companies House address, however for expediency we advise you to return it to the appropriate address below:

For companies registered in England and Wales:
PROOF Manager, Companies House,
Crown Way, Cardiff, Wales, CF14 3UZ.
DX 33050 Cardiff.

i Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y nodiadau cyfarwyddyd ar ein gwefan yn www.tyrcwmniau.gov.uk neu cysylltwch â companies@companieshouse.gov.uk

Mae'r ffurflen hon ar gael ar ddiwyg arall. Edrychwch ar y tudalen ffurflenni ar y wefan yn www.tyrcwmniau.gov.uk

i Further information

For further information, please see the guidance notes on the website at www.companieshouse.gov.uk or email enquiries@companieshouse.gov.uk

This form is available in an alternative format. Please visit the forms page on the website at www.companieshouse.gov.uk

Darperir y ffurflen hon yn rhad ac am ddim gan Dŷ'r Cwmnïau.

This form has been provided free of charge by Companies House.

Specimen

Yn unol ag Adran 1070 o Ddeddf Cwmnïau 2006 fel y caiff ei chymhwyso gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2009.

In accordance with Section 1070 of the Companies Act 2006 as applied by the Limited Liability Partnerships (Application of Companies Act2006) Regulations 2009.

LL PR03**c**

PROOF: Ffurflen gydsyniad ar gyfer ffeilio ar bapur
PROOF: Consent form for paper filing

Companies House — for the record — Tŷ'r Cwmnïau — er gwybodaeth —

Cynllun (PROOF) PROtected Online Filing y Cofrestrydd
The Registrar's PROtected Online Filing (PROOF) scheme

✓ **At beth gewch chi ddefnyddio'r ffurflen hon?**
Dim ond os ydych yn PAC sydd wedi ymuno â chynllun PROOF y Cofrestrydd a'ch bod yn rhoi cydsyniad i ffeilio ffurflenni papur penodol y cewch ddefnyddio'r ffurflen hon.

✗ **At beth NA chewch chi?**
Ni chewch ddefnyddio'r ffurflen hon i adael y cynllun. I wneud hynny, byddwch cystal â chyflwyno cais Gadael y Cynllun i'r Cofrestrydd.

✓ **What this form is for**
You may only use this form if you are an LLP which has joined the Registrar's PROOF scheme and you are giving consent to file certain paper forms.

✗ **What this form is NOT for**
You cannot use this form to opt out of this scheme. To do this, please submit an Opt-Out application to the Registrar.

Ceir nodiadau cwblhau ar ddiwedd y ffurflen.
Am wybodaeth bellach, cyfeiriwch at ein canllaw ar www.tyrcwmniau.gov.uk

Notes for completion can be found at the end of the form.
For further information, please refer to our guidance at www.companieshouse.gov.uk

Specimen

Cod Dilysu'r PAC / LLP authentication code

Rhif y PAC		LLP number
Enw'r PAC yn llawn		LLP name in full
Cod Dilysu'r PAC		LLP authentication code

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig / Registered office address

Enw/rhif yr adeilad		Building name/number
Stryd		Street
Tref bost		Post town
Sir/Rhanbarth		County/Region
Cod post		Post code

Ffurflenni wedi'u hatodi wrth y cydsyniad sy'n gymwys ❶
Forms attached to which consent applies ❶

Mae'r PAC uchod yn un sydd wedi Dewis Ymuno â Chynllun PROOF (fel y mae wedi'i ddiffinio yn Rheolau cynllun y Cofrestrydd). Mae'r PAC drwy hyn yn cydsynio i'r ffurflen bapur/ffurflenni papur isod gael eu cyflwyno i'r Cofrestrydd i'w rhoi ar y cofnod cyhoeddus.

The above LLP is an Opted-In LLP (as defined in the Terms relating to the Registrar's PROOF scheme). The LLP hereby consents to the paper form(s) referred to below being submitted to the Registrar for placing on the public record.

Enw ffurflen Title of form	Nifer y ffurflenni sydd wedi'u hamgáu Number of forms enclosed

LL PR03**c**

PROOF : Ffurflen gydsyniad ar gyfer ffeilio ar bapur
PROOF: Consent form for paper filing

Nodiadau

→ **Llenwi'r ffurflen hon**
Llenwch y ffurflen mewn teipysgrif neu mewn priflythrennau du tywyll. Mae pob maes yn orfodol oni nodir yn wahanol neu y dangosir gyda *

❶ **Ffurflenni**
Dim ond y ffurflenni canlynol y gellir eu ffeilio gyda'r ffurflen hon gan PACau sydd wedi ymuno â PROOF:

Ffurflen Flynyddol, Newid Swyddfa Gofrestredig, Penodiadau, Terfynu penodiadau neu Ffurflenni newid manylion.

Notes

→ **Filling in this form**
Please complete in typescript or in bold black capitals. All fields are mandatory unless specified or indicated by *

❶ **Forms**
Only the following forms can be filed with this form by LLPs signed up to PROOF:

Annual Return, Change of registered office, Appointments, Termination of appointments or Change of details forms.

Specimen

LL PR03**c**

PROOF : Ffurflen gydsyniad ar gyfer ffeilio ar bapur
PROOF: Consent form for paper filing

✓ Rhestr wirio

Mae'n bosibl y byddwn yn dychwelyd ffurflenni anghywir neu anghyflawn.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofio'r canlynol:

- ☐ Eich bod wedi cynnwys enw'r PAC a rhif y cwmni.
- ☐ Eich bod wedi cynnwys cod dilysu'r PAC.
- ☐ Eich bod wedi cynnwys swyddfa gofrestredig y PAC.
- ☐ Eich bod wedi cyfleu pa ffurflen(ni) y cydsyniwch iddynt gael eu cyflwyno i'r Cofrestrydd i'w rhoi ar y cofnod cyhoeddus.

✓ Checklist

We may return forms completed incorrectly or with information missing.

Please make sure you have remembered the following:

- ☐ You have included the company name and LLP number.
- ☐ You have included the LLP authentication code.
- ☐ You have included the LLP's registered office.
- ☐ You have indicated which form(s) you consent may be [illegible]d to the Registrar to be placed on the public rec[illegible]

! Gwybodaeth bwysig

Sylwch ni fydd yr holl wybodaeth ar y ffurflen ho[illegible] yn ymddangos ar y cofnod cyhoeddus. Os bydd ymholiad, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn anfon y ff[illegible] hon i gyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig.

! Important information

Please note that all information on this form will [illegible]ot appear on the public record. In the event of a [illegible]y, Companies House will send this form to the registered office address.

✉ Ble i anfon

Cewch ddychwelyd y ffurflen h[illegible]n i un[illegible] un o gyfeiriadau Tŷ'r Cwmnïau, o[illegible]hwylus[illegible]d byddem yn eich cynghori i[illegible]hanf[illegible]cyfeiriad priodol isod:

PACau sydd wedi'u cofre[illegible]n [illegible]gr a Chymru:
Y Cofrestrydd Cwm[illegible]ŷ'r Cw[illegible]au, Ffordd y Goron, Caerdydd, Cymr[illegible]F14[illegible]Z.
DX 33050 Caerd[illegible].

✉ Where to send

You may return this form to any Companies House address, however for expediency we advise you to return it to the appropriate address below:

For LLPs registered in England and Wales:
The Registrar of Companies, Companies House, Crown Way, Cardiff, Wales, CF14 3UZ.
DX 33050 Cardiff.

i Rh[illegible]gor o [illegible]bodaeth

I gael [illegible]bodaeth, gweler y nodiadau cyfarwyddy[illegible]wefan yn www.tyrcwmniau.gov.uk n[illegible]tiwch [illegible]ies@companieshouse.gov.uk

Ma[illegible] ffurflen hon ar gael ar ddiwyg arall. Edrychwch ar y tudalen ffurflenni ar y wefan yn www.tyrcwmniau.gov.uk

i Further information

For further information, please see the guidance notes on the website at www.companieshouse.gov.uk or email enquiries@companieshouse.gov.uk

This form is available in an alternative format. Please visit the forms page on the website at www.companieshouse.gov.uk

Darperir y ffurflen hon yn rhad ac am ddim gan Dŷ'r Cwmnïau.

This form has been provided free of charge by Companies House.

Specimen